

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae prosiect unigol MEng yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau a ddysgwyd yn ystod eu hastudiaethau er mwyn ymchwilio i broblem peirianneg, ei dadansoddi a'i datrys. Bydd y gwaith annibynnol hunangyfeiriedig hwn yn gofyn am y canlynol ac yn eu datblygu: dealltwriaeth ddofn o'r ymarfer peirianneg perthnasol; gwybodaeth am y llenyddiaeth gysylltiedig, a gallu i reoli'r prosiect. Bydd angen ystyried materion moesegol, yn ogystal â materion cymdeithasol a rhai yn ymwneud â'r farchnad, a gofynion cyfreithiol perthnasol, fel y rhai sy'n ymwneud ag eiddo deallusol. Bydd myfyrwyr yn gwerthuso arwyddocâd eu canfyddiadau ac yn cyflwyno canlyniadau eu hymchwil mewn adroddiad technegol ffurfiol. Drwy gydol y modiwl, bydd tiwtoriaid yn cynghori ac yn arwain myfyrwyr, ond disgwylir iddynt gynhyrchu eu gwaith yn annibynnol, heb oruchwyliaeth agos.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- y gallu i helpu myfyrwyr ar brosiect ar lefel MEng; dylech eisoes fod wedi dangos y gallu i helpu myfyrwyr ar brosiectau ar lefel israddedig o leiaf
- profiad o addysgu un neu fwy o'r modiwlau Lefel 3 cysylltiedig neu brofiad perthnasol yn y maes (mewn achos o'r fath, bydd angen i chi ymgyswgu ag o leiaf un o'r modiwlau cysylltiedig) a dangos y gallu i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu syniad yn fanyleb prosiect ddichonadwy
- y gallu i fodloni manyleb y person ar gyfer un o'r modiwlau Lefel 3 cysylltiedig
- y gallu i helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau allweddol cyffredinol, ymarfer myfyriol a hunanwerthusiad sy'n gysylltiedig â gwaith prosiect a chyflogadwyedd

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad o oruchwyllo gwaith prosiect gyda myfyrwyr mewn amgylchedd academiaidd, yn enwedig ar lefel MEng
- bod yn gyfarwydd â thechnegau ac adnoddau chwilio llenyddiaeth electronig cyfredol

Gwybodaeth ychwanegol (yn ofynnol yn achlysurol yn unig)

- Anogir darlithwyr cyswllt i weithredu fel ail farcwyr ar adroddiadau prosiect myfyrwyr darlithydd cyswllt arall
- Oherwydd y cysylltiadau cryf rhwng y prosiectau a'r modiwlau rhagflaenu, caiff ceisiadau eu hannog gan ddarlithwyr cyswllt sy'n addysgu neu sydd wedi addysgu unrhyw rai o'r modiwlau Lefel 3 hyn
- Croesawir ceisiadau eraill hefyd, yn enwedig gan y rhai sy'n barod i ymgymryd â'u swyddi yn gynt nag arfer, er mwyn rhoi amser iddynt ymgyswgu â chynnwys un neu fwy o'r modiwlau cysylltiedig

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	6
Band cyflog:	2
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	2.5